WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Ionawr 2014
www.wao.gov.uk

# Cyfrifon Llywodraeth Lleol 2012-13



Rwyf wedi paratoi a chyhoeddi'r adroddiad hwn yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys John Herniman a Jeremy Saunders.

**Huw Vaughan Thomas**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn penodi archwilwyr i gyrff awdurdodau lleol yng Nghymru, yn arwain ac yn hybu astudiaethau gwerth am arian yn y sector awdurdod leol ac yn arolygu cydymffurfedd gyda gofynion gwerth gorau Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella.

Mae ef hefyd yn archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus a noddir ganddi ac sy'n gysylltiedig â hithau gan gynnwys cyrff y GIG yng Nghymru. Mae ganddo'r pŵer statudol i gyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol ar economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwbl annibynnol ar y Llywodraeth, y Cynulliad Cenedlaethol a'r cyrff eraill y mae'n eu harchwilio a'u harolygu. Ar ben hynny, er mwyn amddiffyn sefyllfa gyfansoddiadol llywodraeth leol, nid yw'n cyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol sy'n ymwneud yn benodol â gwaith llywodraeth leol ei hun heblaw am pan fo angen gwneud yn ôl statud.

Yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff gyda'i gilydd yw Swyddfa Archwilio Cymru. Am ragor o wybodaeth am Swyddfa Archwilio Cymru, ysgrifennwch at yr Archwilydd Cyffredinol yn y cyfeiriad uchod, ffôn 02920 320500, e-bost: info@wao.gov.uk, neu gweler y wefan www.wao.gov.uk

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2014

Cewch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Rhaid i chi ei ailddefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw rydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

Dylai unrhyw ymholiadau yn ymwneud â'r cyhoeddiad hwn gael eu hanfon at infoofficer@wao.gov.uk.


25
26

# Cynnwys


## Adroddiad cryno 5

## Adroddiad manwl 8

Roedd y cyrff a archwilir yn paratoi cyfrifon a phapurau gwaith ategol amserol ar y cyfan, a chyhoeddwyd barn archwilio ddiamod erbyn 30 Medi, gydag un eithriad, er bod angen paragraffau pwysleisio mater ar chwe barn 8

- Roedd cyrff yr heddlu wedi ymdopi'n dda â'r newidiadau sylweddol i adroddiadau ariannol o ganlyniad i ddeddfwriaeth newydd 9
- Roedd papurau gwaith i gefnogi cyfrifon o safon uchel ac yn gwella ar y cyfan, ond mae angen i rai cyrff a archwilir wella o hyd 9
- Bu cynnydd yn nifer y cyfrifon yr oedd angen gwneud diwygiadau o bwys iddynt eleni, gyda'r rhan fwyaf o'r newidiadau hynny'n ymwneud ag eiddo, peiriannau a chyfarpar 10
- Cyhoeddwyd barn ddiamod ym mhob achos namyn un erbyn y dyddiad terfyn, sef 30 Medi, ond roedd angen paragraffau pwysleisio mater ar chwech ohonynt 13
- Nid ydym wedi cadarnhau bod pob archwiliad wedi'u cwblhau oherwydd materion heb eu datrys yn codi o gwestiynau gan etholwyr a materion yn ymwneud â lles y cyhoedd 14

Nid oedd y rhan fwyaf o'r cyrff a archwilir wedi paratoi eu Cyfrifon Llywodraeth Gyfan cychwynnol ar amser, er i'r rhan fwyaf o'r cyfrifon terfynol gael eu cwblhau erbyn y dyddiad gofynnol 14

Roedd datganiadau llywodraethu blynyddol yn cydymffurfio â'r gofynion ar y cyfan, er bod yna le i wella eu heffeithiolrwydd o hyd 15

Mae nifer sylweddol o gynghorau tref a chymuned lleol yn dal i dderbyn barn archwilio ddiamod 16

Mae'r rhagolygon ar gyfer 2013-14 a thu hwnt yn darogan cyfnod o galedi a fydd yn herio rheolaeth ariannol cyrff a archwilir 16

# Adroddiad cryno

1 Mae cyrff llywodraeth leol (cyrff a archwilir) yn darparu amrywiaeth eang o wasanaethau ac, wrth wneud hynny, yn gwario swm sylweddol o arian cyhoeddus. Fel pob corff cyhoeddus, mae'n ofynnol iddynt gynhyrchu cyfres o ddatganiadau ariannol blynyddol (cyfrifon) sy'n cael eu harchwilio er mwyn arddangos ac adrodd sut maent yn stiwardio'r arian cyhoeddus sydd wedi'i ymddiried iddynt.

2 Mae cynhyrchu cyfrifon cywir ac amserol yn dasg fawr sy'n angenrheidiol er mwyn arddangos atebolrwydd am ddulliau stiwardiaeth a llywodraethu arian cyhoeddus o dan reolaeth y sefydliad. Gall methu â chyhoeddi cyfrifon cywir ac archwiliedig erbyn y dyddiadau terfyn a nodir adlewyrchu'n wael ar y sefydliad, gan danseilio ei drefniadau rheolaeth ariannol a llywodraethu corfforaethol.

3 Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn penodi archwilwyr i bob corff llywodraeth leol yng Nghymru er mwyn archwilio a mynegi barn ar eu cyfrifon. Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud hi'n ofynnol i archwilwyr penodedig archwilio ac ardystio'r cyfrifon, a bodloni eu hunain bod y cyfrifon:

a yn adlewyrchiad cywir a theg o sefyllfa ariannol y cyrff a archwilir;

b yn cydymffurfio â'r holl ofynion deddfwriaethol perthnasol; ac

c wedi'u paratoi yn unol ag arferion cyfrifyddu priodol.

4 Mae hwn, fy nhrydydd adroddiad blynyddol ar gyfrifon cyrff llywodraeth leol, yn crynhoi canlyniadau gwaith archwilwyr yn 2012-13 yn y mathau canlynol o gyrff a archwilir yng Nghymru:

### Arddangosyn 1

| Cyrff a archwilir | Nifer |
|---|---|
| Awdurdodau unedol | 22 |
| Cronfeydd pensiwn llywodraeth leol | 8 |
| Comisiynwyr heddlu a throseddu a phrif gwnstabliaid* | 8 |
| Awdurdodau tân ac achub | 3 |
| Awdurdodau parciau cenedlaethol | 3 |
| Cyd-bwyllgorau | 11 |

* Yn 2012, diddymodd Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 awdurdodau'r heddlu, gan greu comisiynydd heddlu a throseddu a phrif gwnstabl fel endidau cyfreithiol ar wahân ym mhob ardal heddlu. Cynhyrchodd y cyrff newydd hyn eu cyfrifon cyntaf ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2013.

5 Rwyf hefyd wedi cynnwys, am y tro cyntaf eleni, grynodeb o waith archwilio mewn cynghorau lleol. Rwy'n gyfrifol am archwilio 737 o gynghorau tref a chymuned lleol, a chwblhawyd y rhan fwyaf o'r rhain yn brydlon, er bod nifer sylweddol ohonynt yn amodol.

6 Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005, fel y'u diwygiwyd (y Rheoliadau), yn ei gwneud hi'n ofynnol i gyrff a archwilir baratoi cyfrifon, ac i'r Swyddog Ariannol Cyfrifol (RFO) eu hardystio erbyn 30 Mehefin, gyda'r cyfrifon archwiliedig terfynol i'w hailardystio, eu cymeradwyo a'u cyhoeddi erbyn 30 Medi. Os methir â bodloni unrhyw un o'r dyddiadau terfyn hyn, rhaid i'r cyrff a archwilir gyhoeddi datganiad sy'n darparu manylion y camau (gan gynnwys amserlenni) sy'n cael eu cymryd i baratoi, cymeradwyo ac ardystio'r cyfrifon.

7 Ar y cyfan, roedd ansawdd y cyfrifon a'r papurau gwaith ategol wedi gwella ers 2011-12. Er hynny, mewn amryw o achosion, roedd yr ansawdd wedi dirywio ac mae angen gwneud gwelliannau mewn rhai meysydd o hyd.

8 Er mwyn cynhyrchu cyfres o gyfrifon erbyn y dyddiad terfyn, sef 30 Mehefin, mae angen rheoli a chydgysylltu prosiectau'n effeithiol ar draws amryw o adrannau a gwasanaethau. Ar gyfer 2012-13, roedd yr holl gyfrifon wedi'u hardystio gan RFOs erbyn y dyddiad terfyn, sef 30 Mehefin. Yr un fath ag yn y blynyddoedd blaenorol, cafodd barn ddiamod ei chyhoeddi cyn y dyddiad terfyn, sef 30 Medi, ar gyfer pob awdurdod namyn un. Yn yr achos hwn, mae'r archwilydd penodedig yn dal i ystyried ei farn oherwydd materion yn ymwneud â datgelu cyflogau uwch swyddogion.

9 Eleni, fodd bynnag, roedd yna chwe chorff lle'r oedd y farn archwilio yn cynnwys paragraffau pwysleisio materion arbennig, lle mae'r archwilydd yn tynnu sylw'r darllenydd at faterion penodol yr adroddwyd arnynt yn ystod y flwyddyn neu agweddau eraill ar y cyfrifon.

10 Nododd archwiliadau'r rhan fwyaf o'r cyfrifon fod angen gwneud amryw o ddiwygiadau, ond yr hyn a barodd y pryder mwyaf eleni oedd y cynnydd yn nifer y cyrff yr oedd rhaid diwygio eu cyfrifon i gynnwys eitemau o bwys. Ym maes eiddo, peiriannau a chyfarpar (asedau anghyfredol) yr oedd angen gwneud y rhan fwyaf o'r diwygiadau, sy'n esbonio'r gofynion cymhleth yn y maes hwn. Gan fod hon yn thema gyffredin sy'n codi ei phen dro ar ôl tro, mae angen i gyrff a archwilir roi sylw priodol i hyn wrth baratoi eu cyfrifon a sicrhau bod canfyddiadau wrth baratoi ac archwilio cyfrifon yn y blynyddoedd blaenorol ac unrhyw ofynion cyfrifyddu newydd yn cael sylw.

11 Ers cyflwyno Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 yn 2012-13, dyma'r flwyddyn gyntaf yr oedd hi'n ofynnol cyflwyno cyfrifon ar wahân ar gyfer comisiynwyr heddlu a throseddu a phrif gwnstabliaid, a chyfrifon grŵp yn cwmpasu'r ddau. Roedd y newid hwn yn golygu llawer iawn o waith i gyrff yr heddlu, yn ychwanegol at brosesau paratoi cyfrifon y blynyddoedd blaenorol. Braf iawn yw nodi bod holl gyrff yr heddlu yng Nghymru wedi ymdopi'n dda â'r newidiadau eleni. Rydym wedi cydweithio â chyrff yr heddlu yng Nghymru i nodi a datrys y materion cyfrifyddu sylweddol yn sgil y newid hwn, sydd wedi helpu i sicrhau cysondeb o ran y prif faterion cyfrifyddu. Yn y dyfodol, bydd angen i gyrff yr heddlu wneud newidiadau pellach i drefniadau llywodraethu a bydd angen sicrhau bod y datganiadau cyfrifyddu'n adlewyrchu'r newidiadau hyn mewn ffordd gyson.

12 Yn y rhan fwyaf o achosion, ni chafodd y ffurflenni cychwynnol y mae'n rhaid i gyrff a archwilir eu llenwi er mwyn cefnogi'r Cyfrifon Llywodraeth Gyfan (WGA) cenedlaethol eu cwblhau ar amser. Mae'r sefyllfa hon yn siomedig gan fod disgwyl y byddai'r ffurflenni hyn yn cael eu cwblhau'n fwy prydlon. Gellir priodoli rhywfaint o'r oedi hwn i'r Trysorlys yn cyflwyno adnodd casglu data newydd, a chafwyd rhai problemau yn ei ddefnyddio ar y cychwyn. Er y cafodd y rhan fwyaf o'r ffurflenni terfynol archwiliedig eu cwblhau ar amser, neu o fewn diwrnod neu ddau i'r dyddiad terfyn, mae angen i gyrff a archwilir roi mwy o bwyslais ar gwblhau'r ffurflenni WGA mewn ffordd amserol a chywir.

13 Yn unol â gofyniad o 2010-11, mae datganiadau llywodraethu blynyddol yn dal i gael eu mireinio a'u gwella, ond mae yna le i wella pa mor ddefnyddiol ydynt o hyd. Yn 2012-13, cynhaliais astudiaeth gwella er mwyn gwerthuso effeithiolrwydd adolygiadau cyrff a archwilir o drefniadau llywodraethu a byddaf yn cyflwyno adroddiad arnynt nes ymlaen eleni.

14 Bydd y rhagolygon ariannol ar gyfer 2013-14 a thu hwnt yn her sylweddol i gyrff sector cyhoeddus. Bydd angen i gyrff llywodraeth leol a'r heddlu ddatblygu cynlluniau ariannol tymor canolig cadarn, gyda chymorth cynlluniau i ddiwygio darpariaeth gwasanaethau sy'n eu galluogi i ymateb i'r her hon. Fel rhan o'r gwaith hwn, bydd angen i gyrff arfarnu eu cronfeydd wrth gefn ac, os yn bosibl, gynnwys eu defnydd yn eu cynlluniau ariannol tymor canolig mewn ffordd gynaliadwy. Nes ymlaen ym mis Ionawr 2014, byddaf yn cyhoeddi adroddiad pellach ar sut mae llywodraeth leol yng Nghymru yn ymateb i'r heriau ariannol y mae'n eu hwynebu.

# Adroddiad manwl

## Roedd y cyrff a archwilir yn paratoi cyfrifon a phapurau gwaith ategol amserol ar y cyfan, a chyhoeddwyd barn archwilio ddiamod erbyn 30 Medi, gydag un eithriad, er bod angen paragraffau pwysleisio mater ar chwe barn

**1.1** Mae'r Rheoliadau'n ei gwneud hi'n ofynnol i RFOs cyrff a archwilir baratoi ac ardystio cyfrifon erbyn 30 Mehefin sy'n adlewyrchiad cywir a theg o sefyllfa ariannol y corff ar 31 Mawrth ac incwm a gwariant y corff ar gyfer y flwyddyn honno. Mae'r un Rheoliadau'n ei gwneud hi'n ofynnol i'r corff a archwilir gymeradwyo'r cyfrifon yn ffurfiol erbyn 30 Medi, a sicrhau eu bod yn cael eu hardystio gan yr RFO a'r sawl sy'n llywyddu yn y cyfarfod pan gânt eu cymeradwyo. Os methir â bodloni'r dyddiadau terfyn ym mis Mehefin neu fis Medi, mae'r Rheoliadau'n ei gwneud hi'n ofynnol i'r corff a archwilir gyhoeddi (h.y. cyflwyno i'r cyhoedd) datganiad yn esbonio pam ei fod wedi methu â pharatoi ac ardystio'r cyfrifon, a darparu manylion y camau (gan gynnwys amserlenni) sy'n cael eu cymryd i baratoi ac ardystio'r cyfrifon.

**1.2** Mae paratoi cyfrifon drafft yn broses gymhleth sy'n gofyn am waith rheoli prosiect cadarn, felly mae eu cwblhau erbyn 30 Mehefin yn gryn gamp. Llwyddodd pob corff i baratoi ac ardystio cyfrifon drafft erbyn 30 Mehefin yn unol â'r Rheoliadau.

**1.3** Tua 30 Mehefin, mewn cytundeb â chyrff a archwilir, mae archwilwyr penodedig yn derbyn cyfrifon a phapurau gwaith ategol sy'n caniatáu iddynt gyflawni eu gwaith archwilio. Mae'r archwilwyr yn cwblhau eu gwaith mewn da bryd fel y gall y cyfrifon gael eu hailardystio gan RFOs a'u cymeradwyo gan y cyrff a archwilir, ac fel y gall barn archwilio gael ei chyhoeddi, erbyn 30 Medi.

**1.4** Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (y Mesur) yn ei gwneud hi'n ofynnol i gyrff a archwilir sefydlu pwyllgorau archwilio ac mae'n amlinellu amryw o ofynion ar gyfer eu haelodaeth a'u gweithgareddau. Mewn perthynas â'r cyfrifon, mae'r canllawiau statudol o dan y Mesur yn ei gwneud hi'n ofynnol i bwyllgorau archwilio:

- **a** ystyried a gwneud sylwadau ar ddatganiadau ariannol drafft ardystiedig y corff a archwilir; a
- **b** gweld i ba raddau mae'r datganiadau'n rhoi sylw i adroddiadau archwilio yn ystod y flwyddyn, a newidiadau i bolisi cyfrifyddu a mecanweithiau rheolaeth fewnol.

**1.5** Mae tua hanner y cyrff a archwilir wedi bodloni'r gofynion hyn trwy newid trefniadau cymeradwyo eu cyfrifon fel bod y cyfrifoldeb yn cael ei ddirprwyo o'r cyngor i'r pwyllgor archwilio o dan Reoliad 9 o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005 (fel y'u diwygiwyd). Mae'r gweddill yn dal i ddefnyddio'r pwyllgor archwilio ar gyfer y gofynion statudol uchod, ond yn cadw'r cyfrifoldeb dros gymeradwyo'r cyfrifon i'r cyngor llawn.

1.6 Yng nghyrff yr heddlu, mae'r sefyllfa ychydig yn wahanol gan mai'r ddwy gorfforaeth undyn - y comisiynydd heddlu a throseddu a'r prif gwnstabl - sy'n gyfrifol am gymeradwyo a llofnodi'r cyfrifon. Fodd bynnag, yn unol â'r hyn y byddwn yn ei ystyried yn arfer da, roedd cyrff yr heddlu'n sicrhau bod eu pwyllgorau archwilio wedi adolygu eu cyfrifon cyn iddynt eu llofnodi.

**Roedd cyrff yr heddlu wedi ymdopi'n dda â'r newidiadau sylweddol i adroddiadau ariannol o ganlyniad i ddeddfwriaeth newydd**

1.7 Yn ystod blwyddyn ariannol 2012-13, daeth Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 i rym. Diddymodd y ddeddfwriaeth hon awdurdodau'r heddlu a chrëwyd comisiynydd heddlu a throseddu etholedig a ddaeth i rym ar 22 Tachwedd 2012. Sefydlwyd hefyd rôl y prif gwnstabl fel endid cyfreithiol ar wahân am y tro cyntaf. Sefydlwyd y comisiynydd heddlu a throseddu a'r prif gwnstabl fel corfforaethau undyn, felly mae'n ofynnol iddynt gynhyrchu cyfres o ddatganiadau ariannol yr un. Yn ogystal, mae'r comisiynydd heddlu a throseddu yn gyfrifol am gynhyrchu cyfres gyfunol neu 'grŵp' o ddatganiadau ariannol sy'n ymgorffori'r ddwy gyfres o ddatganiadau ariannol a chronfa bensiwn yr heddlu.

1.8 Roedd hon yn her fawr i gyrff yr heddlu yn 2012-13 wrth iddynt gyflwyno trefniadau llywodraethu, adrodd a rheoli ariannol newydd i gefnogi'r model gweithio strwythurol newydd a ddaeth yn sgil y newid deddfwriaethol. Yng Nghymru, bu holl gyrff yr heddlu ac archwilwyr yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau cysondeb yn y ffordd yr oedd y cyfrifon yn cael eu crynhoi a'u cyflwyno. Roedd cyrff yr heddlu wedi ymdopi'n dda â'r newidiadau, gan gynhyrchu cyfrifon erbyn y dyddiad terfyn, sef 30 Mehefin, a derbyn barn archwilio ddiamod erbyn diwedd mis Medi.

1.9 Gan edrych ymlaen, yn ystod y flwyddyn gyfredol mae'n ofynnol i gyrff yr heddlu gynllunio cynllun trosglwyddo a ddaw i rym ar 1 Ebrill 2014, a'i gyflwyno i'r Ysgrifennydd Gwladol i'w gymeradwyo. Bydd y cynlluniau hyn yn amlinellu pa staff a chyfrifoldebau a drosglwyddir o'r comisiynydd heddlu a throseddu i'r prif gwnstabl, ac yn nodi'r newidiadau pellach sydd angen eu gwneud i drefniadau cyfrifyddu a llywodraethu gweithredol. Mae yna berygl y bydd y newidiadau hyn yn gwneud cyfrifon cyrff yr heddlu yn fwy cymhleth ac yn llai cymaradwy, a byddwn yn parhau i weithio gyda chyrff yr heddlu, Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth a'r Swyddfa Gartref i nodi ffyrdd o leihau'r perygl hwn.

**Roedd papurau gwaith i gefnogi cyfrifon o safon uchel ac yn gwella ar y cyfan, ond mae angen i rai cyrff a archwilir wella o hyd**

1.10 Er mwyn cefnogi'r cofnodion yn y cyfrifon a hwyluso proses archwilio esmwyth, dylai cyrff a archwilir ddarparu, mewn da bryd, bapurau gwaith cynhwysfawr a chyflawn i gefnogi eu cyfrifon. Mae'n bwysig bod archwilwyr a chyrff a archwilir yn cytuno ar bapurau gwaith a gofynion archwilio eraill ymlaen llaw er mwyn hwyluso cwblhau'r gwaith archwilio'n brydlon.

1.11 Mae cyrff a archwilir ac archwilwyr wedi parhau i weithio'n galed i sicrhau cyd-ddealltwriaeth o'r hyn a ddisgwylir a'r hyn sy'n gweithio'n lleol ac i symleiddio trefniadau yn seiliedig ar yr hyn a ddysgwyd mewn blynyddoedd blaenorol. Os bydd y broses yn gweithio'n dda, bydd y materion sy'n codi cyn ac yn ystod y broses gyfrifyddu yn cael eu trafod yn barhaus ac yn rheolaidd. Mae profiad yn dangos mai un o'r dulliau mwyaf gwerthfawr o wella trefniadau yw sesiwn ddysgu ôl-brosiect ar y cyd lle mae archwilwyr a rheolwyr yn rhannu'n agored eu safbwyntiau ar y broses o gynhyrchu ac archwilio cyfrifon

ar ôl eu cwblhau. Mae sesiynau o'r fath wedi caniatáu i archwilwyr a rheolwyr rannu profiadau a safbwyntiau ar yr hyn oedd yn llwyddiannus a'r hyn oedd yn aflwyddiannus, ac maent wedi helpu i nodi gwelliannau ar gyfer y flwyddyn ganlynol.

1.12 Fodd bynnag, mewn nifer fach o gyrff a archwilir, mae archwilwyr wedi nodi dirywiad mewn rhai agweddau neu ym mhob agwedd ar ansawdd, prydlondeb a chywirdeb papurau gwaith ategol ar gyfer y cyfrifon. Os felly, bydd angen i'r cyrff fynd i'r afael â'r gwendidau a nodwyd gan eu harchwilwyr a gweithio gyda nhw i ddatrys materion i'r dyfodol. Mae papurau gwaith gwael neu is na'r safon yn rhoi mwy o bwysau ar dimau cyllid cyrff a archwilir ac archwilwyr ac yn cynyddu'r perygl na fydd y cyfrifon yn cael eu cwblhau erbyn y dyddiad terfyn statudol.

1.13 Rydym hefyd wedi datblygu canllaw arfer da sy'n gallu helpu cyrff i gynllunio ar gyfer cau eu cyfrifon yn gynt. Mae'r canllaw wedi'i ysgrifennu ar gyfer cyrff cyhoeddus a'u harchwilwyr allanol, ac mae ar gael ar ein tudalen we Cyfnewidfa Arfer Da[1]. Mae'n cynnwys canllawiau ac astudiaethau achos ar newid diwylliant, cynllunio, arferion gweithio yn ystod y flwyddyn a chau cyfrifon ac adrodd arnynt.

## Bu cynnydd yn nifer y cyfrifon yr oedd angen gwneud diwygiadau o bwys iddynt eleni, gyda'r rhan fwyaf o'r newidiadau hynny'n ymwneud ag eiddo, peiriannau a chyfarpar

1.14 Wrth archwilio'r cyfrifon, nid yw archwilwyr yn darparu sicrwydd pendant bod y datganiadau ariannol yn gywir; yn hytrach, maent yn mabwysiadu'r cysyniad o berthnasedd. Wrth gynllunio a chynnal yr archwiliad, mae archwilwyr yn ceisio nodi camddatganiadau perthnasol a achosir gan dwyll neu gamgymeriad yn y cyfrifon. Ystyr camddatganiadau perthnasol yw camddatganiadau a all gamarwain darllenydd y cyfrifon.

1.15 Bydd yr archwilydd yn defnyddio ei farn broffesiynol i bennu'r hyn sy'n berthnasol, a chaiff ei ddylanwadu gan sawl ffactor, gan gynnwys:

- a y math o gorff a archwilir;
- b natur y gwasanaethau mae'r corff yn eu darparu;
- c gofynion deddfwriaethol; a
- ch gwybodaeth ariannol sydd ei hangen ar ddeddfwyr a defnyddwyr eraill y cyfrifon.

1.16 Roedd y trothwy ar gyfer galw camddatganiad yn gamddatganiad perthnasol yn amrywio o £6,000 mewn cyrff bach i £20 miliwn mewn cyrff mawr. Gall y trothwy hwn hefyd gael ei effeithio gan rai materion ansoddol megis gofynion cyfreithiol a rheoleiddio a sensitifrwydd gwleidyddol. Felly, efallai yr ystyrir bod balansau a thrafodion â gwerthoedd is yn berthnasol i'r cyfrifon, er enghraifft, taliadau cydnabyddiaeth ac ati.

1 www.wao.gov.uk/cymraeg/goodpractice/1488.asp

**1.17** Trwy eu gwaith, gall archwilwyr nodi camddatganiadau perthnasol yng nghyfrifon corff a archwilir. Os felly, bydd yr archwilydd yn gofyn i'r RFO ddiwygio'r cyfrifon i gywiro'r camgymeriadau. Os na chaiff y camddatganiadau perthnasol eu cywiro, neu os na fydd hi'n bosibl eu newid gan nad oes digon o wybodaeth ar gael, gall yr archwilydd ystyried cyhoeddi barn wedi'i haddasu (hy, amodol).

**1.18** Caiff camddatganiadau sylweddol e raill nad ydynt yn gamddatganiadau perthnasol eu dwyn i sylw'r RFO hefyd. Mae archwilwyr yn gofyn i'r RFO ddiwygio'r cyfrifon er mwyn cywiro camgymeriadau o'r fath. Os caiff camgymeriadau o' r fath a chamddatganiadau sylweddol tebyg eu dwyn i sylw'r RFO ond na chânt eu haddasu, bydd archwilwyr yn eu dwyn i sylw'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu. Byddant yn ceisio cael esboniad pam nad yw'r addasiadau wedi'u gwneud cyn i'r cyfrifon gael eu cymeradwyo.

**1.19** Yn 2012-13, gwnaeth 18 o'r cyrff sy'n cael sylw yn yr adroddiad addasiadau o bwys i'w cyfrifon yn dilyn archwiliad. Roedd y ffigur hwn wedi codi ers 2011-12. Er ei bod hi'n debygol y bydd camgymeriadau bach yn y cyfrifon a gyflwynir i'w harchwilio, dylai eitemau o bwys fod yn llai cyffredin o lawer. Dylai trefniadau cynhyrchu cyfrifon da gyda threfniadau adolygu a sicrhau ansawdd mewnol cadarn allu nodi camgymeriadau perthnasol cyn i'r RFO ardystio ar ddiwedd mis Mehefin bod y cyfrifon yn berthnasol gywir. Dylai cyrff sydd angen gwneud diwygiadau o bwys adolygu eu trefniadau cynhyrchu ac adolygu cyfrifon i sicrhau eu bod yn gallu canfod camgymeriadau o'r fath cyn i'r cyfrifon gael eu hardystio a'u cyflwyno i'w harchwilio.

**1.20** Mae'r prif feysydd lle nodwyd camddatganiadau perthnasol ac amherthnasol o ganlyniad i waith archwilio yn 2012-13 wedi'u crynhoi isod.

## Eiddo, peiriannau a chyfarpar

**1.21** Mae eiddo, peiriannau a chyfarpar yn dal i fod yn faes lle mae nifer sylweddol o gyrff a archwilir yn ei chael hi'n anodd cymhwyso dulliau cyfrifyddu yn gywir. Roedd rhai o'r problemau cyffredinol y deuwyd ar eu traws mewn blynyddoedd blaenorol wedi codi unwaith eto, gan gynnwys:

- **a** methu â chyfrif eiddo wedi'u hailbrisio yn gywir neu eu hailbrisio gan ddefnyddio sail anghywir (yn aml, priodolir hyn i gyfathrebu gwael rhwng adrannau cyllid ac ystadau);
- **b** ni allai cofrestri asedau gael eu cysoni'n llawn â chofnodion cyfrifyddu, gyda rhai problemau cyffredin (rhai asedau'n cael eu cyfrif ddwywaith ac eraill yn cael eu gadael allan o'r cyfrifon); a
- **c** materion cyffredinol yn ymwneud â chyfrif dibrisiant, cydnabod a chyfrif namau, trin a datgelu gwariant nad yw'n gwella a dosbarthu asedau.

**1.22** Yn fy adroddiadau *Cyfrifon Awdurdodau Lleol 2010-11 a 2011-12*, nodais fod yna ddiffyg eglurder ynglŷn â'r gydnabyddiaeth o asedau ysgolion sefydledig, ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion gwirfoddol a reolir ar fantolenni cyrff a archwilir. Yn absenoldeb canllawiau pendant, unwaith eto yn 2012-13 mae cyrff a archwilir wedi mabwysiadu triniaethau cyfrifyddu anghyson mewn perthynas â'r ysgolion hyn, gyda rhai cyrff a archwilir yn eu cydnabod ar y fantolen, ond eraill yn methu â gwneud hynny. Pan fydd y canllawiau wedi'u cwblhau, ar gyfer 2014-15 yn ôl pob tebyg, bydd angen i gyrff a archwilir adolygu sut maent yn trin yr asedau hyn.

**1.23** Mae'r Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig (y Cod) yn ei gwneud hi'n ofynnol i anheddau'r cyngor gael eu prisio gan ddefnyddio Gwerth Defnydd sy'n Bodoli – Tai Cymdeithasol (EUV-SH). Dyma'r swm yr amcangyfrifir y dylai'r eiddo newid dwylo amdano rhwng prynwr parod a gwerthwr parod mewn trosglwyddiad hyd braich ar y dyddiad prisio. Yn fy adroddiadau blaenorol ar gyfrifon llywodraeth leol, rwyf wedi nodi bod camgymeriadau cyfrifyddu'n codi'n aml yn y maes hwn a'i bod yn ymddangos bod amrywiadau a chamgymeriadau mewn dulliau prisio yn arwain at brisiadau gwahanol iawn. Byddwn yn parhau i drafod y mater hwn gyda chynrychiolwyr Llywodraeth Cymru a chyrff a archwilir lleol i sicrhau cysondeb y dull prisio.

## Darpariaethau a chyflog cyfartal

**1.24** Mae'n ofynnol i gyrff a archwilir ystyried a all pethau a ddigwyddodd cyn diwedd y flwyddyn arwain at rwymedigaeth yn y dyfodol. Os yw'n fwy tebygol na pheidio y bydd rhwymedigaeth yn crisialu ac y gellir ei hamcangyfrif yn ddibynadwy, yna bydd angen darpariaeth ariannol yn ymwneud â'r digwyddiad hwnnw.

**1.25** Yr un fath â'r llynedd, roedd amryw o gyrff a archwilir wedi gwneud darpariaethau'n amhriodol ac roedd eraill wedi methu â gwneud darpariaethau lle'r oedd hynny'n ofynnol. Unwaith eto, cafwyd amryw o gamddatganiadau'n ymwneud â chadw cyfrifon yswiriant, gyda rhai darpariaethau'n cael eu cyfrif yn anghywir fel cronfeydd wrth gefn, ac fel arall.

**1.26** Cafwyd y rhan fwyaf o'r problemau gyda darpariaethau ym maes cyfrifyddu ar gyfer hawliadau cyflog cyfartal. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae cyrff llywodraeth leol wedi gwneud cynnydd o ran setlo'r hawliadau hyn neu gytuno ar sail i'w setlo, ac nid oedd y sefyllfaoedd hyn bob amser yn cael eu cynrychioli'n gywir yn y cyfrifon, gyda symiau'n cael eu nodi fel rhwymedigaethau wrth gefn yn hytrach na darpariaethau, ac fel arall. Mae un mater sydd wedi codi dros y blynyddoedd blaenorol, sef a yw taliadau o'r fath yn bensiynadwy, yn dal i fod yn faes sy'n cael ei ddehongli mewn gwahanol ffyrdd, ac mae hyn yn effeithio ar gyfanswm y darpariaethau a'r ffordd y maent yn cael eu trin yn y cyfrifon. Y flwyddyn nesaf, bydd cyrff a archwilir yn mynd i'r afael â'r mater hwn ymhellach a bydd angen iddynt sicrhau bod y sefyllfa ddiweddaraf yn cael ei hystyried wrth gynhyrchu eu cyfrifon.

## Incwm a gwariant

**1.27** Er bod y symiau dan sylw yn amherthnasol ar y cyfan, cododd archwilwyr faterion yn ymwneud â thrafodion incwm a gwariant gydag amryw o gyrff a archwilir. Ar y cyfan, roedd y rhain yn ymwneud â thorbwynt diwedd blwyddyn ar gyfer dyledwyr, credydwyr a chroniadau neu netio eitemau incwm a gwariant. Roedd rhai materion hefyd yn ymwneud â'r diffyg cyfuno (neu gyfuno anghywir) rhwng trafodion a balansau cydbwyllgorau.

## Datgeliadau'r gronfa bensiwn

**1.28** Cafodd datgeliadau cronfa bensiwn sawl corff a archwilir eu diwygio oherwydd materion cysoni rhwng y data aelodaeth a gedwir gan y gronfa bensiwn ac a drosglwyddir i'r actiwari a'r data aelodaeth a gedwir gan y corff a archwilir.

## Cronfeydd pensiwn

**1.29** Mae archwilwyr wedi nodi pob math o faterion yn ymwneud â chyfrifon cronfeydd pensiwn eleni, ac yn bennaf:

- **a** gwendidau o ran cysoni data aelodaeth rhwng gwybodaeth am gyflogres a data systemau pensiwn y cyrff (y cyfeirir atynt uchod);
- **b** cywirdeb y gwaith o ddosbarthu a datgelu gwahanol fathau o fuddsoddiadau; a
- **c** thorbwynt diwedd blwyddyn ar gyfer prisiadau buddsoddiadau.

### Cyhoeddwyd barn ddiamod ym mhob achos namyn un erbyn y dyddiad terfyn, sef 30 Medi, ond roedd angen paragraffau pwysleisio mater ar chwech ohonynt

**1.30** Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud hi'n ofynnol i archwilwyr gyhoeddi barn ar y cyfrifon ar ôl cwblhau'r archwiliad. Bydd archwilwyr yn ceisio cyhoeddi eu barn erbyn 30 Medi fel y gall cyrff gyhoeddi cyfrifon archwiliedig erbyn y dyddiad terfyn statudol. Eleni, fel yn y blynyddoedd blaenorol, cafodd y rhan fwyaf o gyfrifon cyrff a archwilir eu cymeradwyo a chyhoeddwyd barn archwilio ddiamod arnynt erbyn y dyddiad terfyn, sef 30 Medi.

**1.31** Fodd bynnag, ceir un corff a archwilir, sef Cyngor Sir Penfro, lle nad oes barn archwilio wedi'i gyhoeddi hyd yma gan fod yr Archwilydd Penodedig a'r Cyngor yn anghytuno ynghylch taliadau i uwch swyddogion y mae'r archwilydd penodedig yn eu hystyried yn groes i'r gyfraith. Mae'r archwilydd penodedig yn ystyried a oes angen cymryd camau pellach mewn perthynas â'r mater hwn.

**1.32** Os gall yr archwilydd ddod i'r casgliad bod cyfrifon corff yn berthnasol gywir, ond yr hoffai dynnu sylw'r darllenydd at eitem a ddatgelir ynddynt, mae'n bosibl ychwanegu paragraff pwysleisio mater at yr adroddiad archwilio i esbonio'r mater i'r darllenydd. Er y bydd hyn yn farn archwilio ansafonol, bydd y farn ei hun yn ddiamod o hyd.

**1.33** Yn 2012-13, rhoddwyd barn ansafonol i chwe chorff:

- **a** Derbyniodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili farn archwilio yn tynnu sylw at wariant anghyfreithlon mewn perthynas â chyflogau uwch swyddogion. Ym mis Mawrth 2013, cyhoeddodd yr archwilydd penodedig adroddiad er lles y cyhoedd ar amgylchiadau cyflogau uwch swyddogion yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ac adroddiad er lles y cyhoedd pellach ym mis Rhagfyr 2013 yn ymwneud â thaliadau i brynu lwfansau defnyddiwr car hanfodol a gwyliau blynyddol prif swyddogion.
- **b** Derbyniodd Cyngor Sir Gâr adroddiad archwilio yn tynnu sylw at farn yr archwilydd penodedig ar gyfreithlondeb taliadau atodol i uwch swyddogion ac yn caniatáu indemniad i uwch swyddog am wrth-hawliad enllib. Mae'r archwilydd penodedig yn ystyried a oes angen cymryd camau pellach mewn perthynas â'r materion hyn.
- **c** Derbyniodd Dinas a Sir Abertawe adroddiad archwilio yn cynnwys paragraff pwysleisio mater yn tynnu sylw at y trefniadau cyfrifyddu a datgelu mewn perthynas â rhai trefniadau rheoli arian parod a bancio rhwng y cyngor a'r gronfa bensiwn, a oedd yn destun paragraff tebyg yn adroddiad 2011-12. Roedd y mater hwn yn ymwneud â thrafodyn a ddigwyddodd yn 2011-12, a gafodd ei gywiro maes o law yn 2012-13.

**ch** Roedd adroddiadau archwilio cyfrifon a ffurflenni tri chydbwyllgor yn cynnwys paragraff yn tynnu sylw at y ffaith nad oedd y cyfrifon wedi'u paratoi fel sy'n ofynnol ar gyfer y blynyddoedd blaenorol – y Cyd-bwyllgor Polisi Cynllunio (Ynys Môn a Gwynedd), y Cyd-bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig (Ynys Môn a Gwynedd) a Chonsortia Trafnidiaeth Rhanbarthol Taith (chwe chyngor y Gogledd).

### Nid ydym wedi cadarnhau bod pob archwiliad wedi'u cwblhau oherwydd materion heb eu datrys yn codi o gwestiynau gan etholwyr a materion yn ymwneud â lles y cyhoedd

**1.34** Ar ôl cwblhau'r holl waith mewn perthynas ag unrhyw flwyddyn benodol, rhaid i'r archwilydd penodedig ardystio bod yr archwiliad wedi'i gwblhau. Cyn cyhoeddi'r farn a chwblhau'r archwiliad, mae angen i archwilwyr ystyried amryw o faterion:

**a** a ddylid cyhoeddi adroddiad er lles y cyhoedd neu gymryd unrhyw gamau archwilio ffurfiol eraill; ac

**b** a yw'r holl gwestiynau a/neu wrthwynebiadau gan etholwyr wedi'u trafod yn foddhaol.

**1.35** Os bydd materion yn dal i beri pryder, gall yr archwilydd gyhoeddi barn ar y datganiadau ariannol os na fydd y materion yn cael effaith o bwys ar y cyfrifon. Ar ôl i'r materion hyn gael eu datrys, gall yr archwilydd ailgyhoeddi'r farn ac ardystio bod yr archwiliad wedi'i gwblhau.

**1.36** Ar gyfer 14 o gyrff a archwilir (gan gynnwys pedair cronfa bensiwn gan fod yr archwiliad yn gysylltiedig â'r awdurdod gweinyddu), nid oedd y dystysgrif cwblhau'r archwiliad wedi'i chyhoeddi adeg cyhoeddi'r farn. Y rheswm am hyn oedd bod yna faterion yn ymwneud â chwestiynau a gwrthwynebiadau gan etholwyr neu am fod ystyriaeth yn cael ei rhoi i gyhoeddi adroddiadau er lles y cyhoedd. Mae mynychder cwestiynau gan etholwyr yn amrywio o un Cyngor i'r llall gyda rhai yn derbyn nifer sylweddol ohonynt. Pan fo'r dystysgrif yn parhau'n agored o'u herwydd, nid yw hyn yn golygu o reidrwydd y bydd angen cymryd unrhyw gamau archwilio ffurfiol yn y pen draw, oherwydd efallai na fydd unrhyw arwyddocâd i'r materion sy'n codi. Hyd nes i'r materion hyn gael eu hystyried yn llawn, fodd bynnag, ni ellir ardystio bod yr archwiliadau wedi'u cwblhau.

## Nid oedd y rhan fwyaf o'r cyrff a archwilir wedi paratoi eu Cyfrifon Llywodraeth Gyfan cychwynnol ar amser, er i'r rhan fwyaf o'r cyfrifon terfynol gael eu cwblhau erbyn y dyddiad gofynnol

**1.37** Cyfres o ddatganiadau ariannol cyfunol masnachol ar gyfer sector cyhoeddus y DU yw'r Cyfrifon Llywodraeth Gyfan (WGA). Fe'u paratoir gan Drysorlys Ei Mawrhydi, yn unol â Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol, ac mae cyfrifon tua 1,400 o gyrff yn cael eu cyfuno yn WGA y DU.

**1.38** Mae Trysorlys Ei Mawrhydi yn pennu pa gyrff y dylid eu cynnwys yn y WGA bob blwyddyn. Mae hefyd yn dynodi swyddog cyfuno ym mhob corff. Maent yn gyfrifol am ddarparu'r wybodaeth sydd ei hangen ar gyfer ffurflen WGA mewn ffordd amserol a sicrhau bod systemau digonol a dyfarniadau cyfrifyddu priodol yn cefnogi'r ffurflen. Mae'r trefniadau hyn yn rhoi sylw i bob corff archwilio yn yr adroddiad hwn, gyda'r gwariant uwchlaw'r trothwy WGA, sef £10 miliwn.

1.39 Archwilydd statudol y WGA yw Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol y Swyddfa Archwilio Genedlaethol. Mae'r gwaith a gyflawnir gan archwilwyr cyrff cydrannol sydd wedi'u cynnwys yn y WGA yn sail i'w waith. Ar gyfer 2012-13, cyflwynodd Trysorlys Ei Mawrhydi adnodd casglu data newydd er mwyn crynhoi ffurflenni'r WGA. Y bwriad oedd i'r system newydd fod ar waith erbyn mis Mawrth 2013 ond, oherwydd oedi sylweddol, nid oedd yr adnodd casglu data ar gael i gyrff llywodraeth leol Cymru ei ddefnyddio tan 24 Gorffennaf 2013. Er na aeth y Trysorlys ati i ymestyn y dyddiadau cau ar gyfer cwblhau ac archwilio ffurflenni'r WGA, cafodd cyrff llywodraeth leol bedair wythnos i baratoi'r ffurflenni cychwynnol a oedd i'w cyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 21 Awst 2013.

1.40 Roedd yr amserlen ar gyfer proses WGA 2012-13 fel a ganlyn:

a ffurflenni cychwynnol y WGA i'w darparu i Lywodraeth Cymru a thimau archwilio lleol erbyn 21 Awst; a

b ffurflenni'r WGA wedi'u harchwilio a'u cwblhau i'w darparu i Lywodraeth Cymru erbyn 4 Hydref.

1.41 Dim ond 19 o awdurdodau a gyflwynodd y ffurflenni cychwynnol erbyn y dyddiad cau; cytunodd 11 arall ar estyniadau gyda Llywodraeth Cymru – roedd y rhan fwyaf o'r estyniadau hyn hyd at ddiwedd mis Awst, gyda phedwar angen estyniadau hyd at wythnos gyntaf mis Medi. Er hynny, ni lwyddodd tri o'r pedwar awdurdod a oedd wedi cytuno ar estyniadau hyd at fis Medi i gyflwyno'r ffurflenni erbyn y dyddiad newydd.

1.42 Er gwaethaf hyn, cafodd y rhan fwyaf o'r ffurflenni archwiliedig terfynol eu cyflwyno'n brydlon; roedd yna ychydig o oedi yn achos chwe awdurdod ac nid yw ffurflen un corff wedi'i hardystio hyd yma. Roedd pob ffurflen namyn un yn ddiamod. Ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn, roedd y ffurflen yn amodol oherwydd anghytundeb mewn perthynas â balansau a thrafodion o bwys gyda Llywodraeth Cymru.

1.43 Mae hyn oll yn parhau i dynnu sylw at y ffaith bod angen rhoi mwy o bwyslais ar gwblhau'r ffurflenni WGA yn brydlon ac yn gywir, yn enwedig gan fod Trysorlys Ei Mawrhydi wedi ymrwymo i barhau i geisio cyhoeddi'r WGA cyn gynted ag y bo modd.

## Roedd datganiadau llywodraethu blynyddol yn cydymffurfio â'r gofynion ar y cyfan, er bod yna le i wella eu heffeithiolrwydd o hyd

1.44 Yn ôl ein hadroddiadau *Cyfrifon Awdurdodau Lleol 2010-11 a 2011-12*, roedd yna le i wella gwaith cynhyrchu a chynnwys datganiadau llywodraethu blynyddol, a'r manteision sy'n deillio o'u cynhyrchu.

1.45 Yn ystod 2012-13, cynhaliais astudiaeth gwella er mwyn gwerthuso effeithiolrwydd adolygiadau llywodraethu cyrff a archwilir. Cyhoeddir adroddiad cryno cenedlaethol ar ffurf 'nodyn ymarfer' nes ymlaen eleni. Bydd yr adroddiad hwn yn crynhoi'r pwyntiau dysgu allweddol ar lefel genedlaethol ac yn nodi'r camau y bydd angen i gyrff a archwilir eu cymryd i sicrhau bod adolygiadau llywodraethu mor effeithiol â phosibl.

1.46 Yn 2012-13, mae cyrff a archwilir wedi parhau i fireinio a gwella eu datganiadau llywodraethu blynyddol, gan gynnwys, mewn rhai achosion, nodi sut y cafodd materion llywodraethu a gododd eu trafod. Fodd bynnag, mae angen gwneud mwy o welliannau o hyd o ran yr hyn a nodir yn y datganiadau eu hunain a sut y cânt eu crynhoi. O ran y cynnwys, mae yna le i symud oddi wrth esboniadau disgrifiadol o'r broses lywodraethu tuag at werthusiad mwy heriol o effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethu, gan gynnwys manylion unrhyw faterion sylweddol sydd wedi codi a sut yr ymdrinnir â hwy. Er mwyn cyflawni hyn, mae angen i'r broses o grynhoi'r datganiad llywodraethu blynyddol fod yn fwy cynhwysol a thynnu ar y gwahanol ffynonellau tystiolaeth sy'n bodoli mewn ffordd agored a llawn her.

## Mae nifer sylweddol o gynghorau tref a chymuned lleol yn dal i dderbyn barn archwilio ddiamod

1.47 Ym mis Medi 2013, cyhoeddais *Gwella Llywodraethu a Rheolaeth Ariannol: Materion yn deillio o Archwilio Cyfrifon Cyngor Cymuned 2011-12*. Nododd yr adroddiad hwn fod angen i gynghorau lleol gynnal ffocws clir ar wella eu trefniadau llywodraethu a rheolaeth ariannol. Daeth yr adroddiad i'r casgliad bod nifer ac amrywiaeth y materion a nodir gan archwilwyr yn awgrymu bod yna wendidau systematig y mae angen i gynghorau lleol fynd i'r afael â nhw. Mae'r archwilydd penodedig wedi cyhoeddi amryw o adroddiadau er lles y cyhoedd ar gynghorau lleol dros y blynyddoedd diwethaf ac, ar hyn o bryd, mae'n ystyried cyhoeddi adroddiadau pellach ar gynghorau sydd wedi methu mewn perthynas ag adroddiadau ariannol a/neu lywodraethu.


1.48 Mae data cychwynnol yn nodi gwelliant o ran prydlondeb cwblhau archwiliadau o gyfrifon 2012-13. Ar 30 Medi 2013, roedd archwilwyr wedi cwblhau 91 y cant o holl archwiliadau cynghorau lleol (30 Medi 2012, 87 y cant). Fodd bynnag, mae nifer y cymwysterau archwilio'n uchel o hyd, gydag 19 y cant o gynghorau'n derbyn barn archwilio amodol a rhai heb gyfrifon ers sawl blwyddyn.

1.49 Byddaf yn cyhoeddi diweddariad i adroddiad Medi 2013 nes ymlaen eleni.

## Mae'r rhagolygon ar gyfer 2013-14 a thu hwnt yn darogan cyfnod o galedi a fydd yn herio rheolaeth ariannol cyrff a archwilir

1.50 Mae cyrff llywodraeth leol, fel gweddill y sector cyhoeddus, yn wynebu cyfnod o ansicrwydd a chyni ariannol. Rhwng 2010-11 a 2013-14, mae llywodraeth leol wedi wynebu toriadau mewn termau real o tua phedwar y cant yn y cyllid refeniw y mae'n ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru. Mae'r sefyllfa ar gyfer 2014-15 yn fwy arwyddocaol, gyda setliad refeniw dros dro llywodraeth leol yn nodi gostyngiad cyfartalog o 3.5 y cant ar draws pob cyngor. Mae cynigion cyllideb dangosol ar gyfer 2015-16 yn dangos gostyngiad pellach o dros dri y cant mewn termau real. Gostyngiad dros dro o 3.5 y cant yw'r cyfartaledd ar gyfer 2014-15, gyda gostyngiadau unigol yn amrywio o 1.2 y cant i 4.6 y cant. Ochr yn ochr â'r gostyngiadau ariannol, mae gwasanaethau llywodraeth leol yng Nghymru'n parhau i wynebu gofynion a phwysau cost sylweddol. Mae'r cyfuniad hwn yn her sylweddol i gyrff a archwilir a bydd angen rheolaeth ariannol effeithiol a chynlluniau ariannol tymor canolig sy'n gysylltiedig â chynlluniau cadarn er mwyn gweddnewid gwasanaethau.

**Ffigur 1 - Cronfa'r cyngor a chronfeydd wrth gefn a glustnodwyd awdurdodau unedol Cymru**
**Cronfa'r Cyngor**




*Ffynhonnell: Cyfrifon cyhoeddedig*

**1.51** Mae mantolenni awdurdodau lleol yn cynnwys symiau wedi'u neilltuo mewn cronfeydd wrth gefn. Mae'r gallu i gadw cronfeydd wrth gefn yn elfen bwysig o'u trefniadau rheolaeth ariannol a chynlluniau ariannol hirdymor. Mae'n ofynnol i gyrff a archwilir gadw pob math o gronfeydd wrth gefn; rhai ohonynt y mae modd eu defnyddio i gefnogi gwariant ac eraill nad oes modd eu defnyddio gan eu bod at ddibenion cyfrifyddu technegol yn unig. Mae'r rhai y mae modd eu defnyddio yn cael eu cadw naill ai mewn perthynas ag ymrwymiadau neu bwysau cost penodol (cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd) neu fel diogelwch yn erbyn gwariant neu ddigwyddiadau nad oes modd eu rhagweld (cronfa'r cyngor neu gronfeydd wrth gefn cyffredinol).

**1.52** Fel y gwelwch yn Ffigur 1, dros y blynyddoedd diwethaf mae lefel gyffredinol y cronfeydd wrth gefn a gedwir gan awdurdodau unedol Cymru wedi cynyddu. Yn 2012-13, gwelwyd cynnydd o £23.6 miliwn yn y cronfeydd wrth gefn cyffredinol a gostyngiad bach o £1.4 miliwn yn y cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd.

1.53 Mae cyrff a archwilir yn gallu pennu faint o gronfeydd wrth gefn sydd ganddynt yn seiliedig ar eu hasesiad o angen, risgiau ac ymrwymiadau i'r dyfodol. Cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd yw'r elfen fwyaf o gyfanswm y cronfeydd wrth gefn, ac maent yn cynnwys balansau a symiau wedi'u neilltuo ar gyfer costau cyflog cyfartal neu statws sengl, yswiriant, taliadau PFI, cyllid ar gyfer cynlluniau cyfalaf neu atgyweiriadau ac adnewyddiadau, ymhlith pethau eraill. Mae cyfanswm y cronfeydd wrth gefn cyffredinol ac a glustnodwyd fel canran o wariant refeniw gros yn amrywio rhwng cyrff a archwilir o 7 y cant i 22 y cant, gyda chyfartaledd o tua 13 y cant.

1.54 Mae'r rhagolygon ariannol anodd yn golygu y bydd angen i'r cyrff a archwilir arfarnu eu cronfeydd wrth gefn a, lle bo angen, cynnwys eu defnydd yn y broses o bennu'r gyllideb ac mewn cynlluniau ariannol tymor canolig. Er bod y symiau'n ymddangos yn sylweddol mewn termau absoliwt, nid ydynt yn cynrychioli mwy na chyfran gymharol fach o'r gwariant blynyddol a dim ond unwaith y gellir eu defnyddio. Felly, mae angen i gyrff a archwilir sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio mewn ffordd gynaliadwy sy'n cefnogi gweddnewidiad a newidiadau parhaus i wasanaethau, yn hytrach na chefnogi gwariant refeniw blynyddol yn barhaus.

1.55 Y llynedd, cyhoeddais bapur ymchwil ar gronfeydd wrth gefn awdurdodau lleol[2] a oedd yn cynnwys amryw o feysydd arfer da i aelodau a swyddogion eu hystyried fel rhan o'r gwaith o reoli eu cronfeydd wrth gefn. Nes ymlaen ym mis Ionawr 2014, byddaf yn cyhoeddi adroddiad pellach ar sut mae llywodraeth leol yng Nghymru yn ateb yr heriau ariannol y mae'n eu hwynebu.

2 www.wao.gov.uk/assets/Wales_Audit_Office__Report_Local_Authority_Reserves_and_Unsupported_Borrowing_July_2012_-_Final.pdf